SKSRACC19

Cynhyrchu cynnwys cerddoriaeth ar gyfer cynyrchiadau radio a sain

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynhyrchu pob mathau o gynnwys cerddoriaeth ar gyfer radio a sain.

Mae hefyd yn ymwneud â phenderfynu pa gerddoriaeth sydd ei hangen ar gyfer gwahanol fathau o orsaf, rhaglen, neu gynhyrchiad; ei ganfod, a'i gaffael.
Mae hefyd yn ymdrin â chydosod cynnwys cerddoriaeth yn ei drefn gynhyrchu.
Mae'r safon hon yn arbennig ar gyfer y rheiny sy'n cynhyrchu cerddoriaeth ar gyfer radio a sain.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys cerddoriaeth o wybodaeth y cynhyrchiad
2. nodi a manteisio ar ffynonellau perthnasol ar gyfer y cynnwys cerddoriaeth sydd ei angen
3. gwirio a chadarnhau gyda chyflenwyr o ran a yw'r cynnwys cerddoriaeth ofynnol ar gael
4. nodi cynnwys cerddoriaeth amgen sy'n cyflawni'r un diben a safonau pan nad yw'r ffynonellau a gafodd eu nodi'n wreiddiol ar gael
5. pennu'r angen am unrhyw drwyddedau, cydsyniadau, caniatâd a ffioedd perfformiad sydd eu hangen
6. cadarnhau bod y trefniadau i gaffael trwyddedau, cydsyniadau a chaniatâd wedi'u caffael ar gyfer y cynhyrchiad
7. gwirio'r cynnwys cerddoriaeth pan gaiff ei gyflwyno a chadarnhau ei fod yn bodloni'r safonau a'r gofynion
8. nodi gofynion y ffurfiau, a dyfeisio categorïau a chlociau cerddoriaeth addas i'w mewnbynnu i systemau amserlennu safonol
9. cydosod y cynnwys cerddoriaeth wedi'i recordio yn ei drefn cynnal a chadarnhau ei fod yn barod i'w ddarlledu
10. cadarnhau bod y gerddoriaeth yn bodloni'r gofynion o ran cynnwys a hyd
11. perfformio gwiriadau dilys i gadarnhau bod y gerddoriaeth yn bodloni'r safonau gofynnol a'i bod o ansawdd cyson
12. gwrthod cerddoriaeth sydd ddim yn bodloni'r gofynion neu'r safonau, ac nad oes modd ei addasu
13. gwirio bod costau'r cynnwys o fewn y cyllidebau sydd ar gael
14. cyflawni camau gweithredu prydlon i unioni unrhyw orwariant yn y gyllideb
15. cadarnhau bod y defnydd o ddeunydd a allai fod yn sensitif neu'n ddadleuol o fewn y polisi golygyddol a'r safonau darlledu
16. cadarnhau bod y drefn cynnal derfynol yn cynnig y dichonoldeb gorau ar gyfer bodloni gofynion y cynhyrchiad
17. annog cydweithwyr i werthuso, a chynnig adborth ar, y cynnwys a ddewiswyd
18. sicrhau bod y cofnodion o ran manylion a hyd y gerddoriaeth wedi'u cadw er dibenion clirio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diben a gofynion pob cynhyrchiad
2. nodweddion y cynulleidfaoedd targed
3. ffurfiau'r cynnwys cerddoriaeth sydd ei angen
4. y cyllidebau sydd ar gael ar gyfer cynnwys cerddoriaeth
5. ffynonellau o gynnwys cerddoriaeth, a sut i fanteisio arnyn nhw
6. sut i ganfod dewisiadau amgen os nad yw'r gerddoriaeth a nodwyd yn wreiddiol ar gael
7. pa drwyddedau, cydsyniadau a chaniatâd sydd eu hangen, a sut i'w caffael
8. ansawdd a chysondeb y gerddoriaeth sydd wedi'i chaffael
9. nodweddion systemau amserlennu cerddoriaeth â llaw neu safonol, ac egwyddorion rheoli ffeiliau, gwerthuso tracio, ac amserlennu
10. y gwahaniaethau rhwng rhaglennu byw, wedi'i recordio ymlaen llaw neu awtomataidd a'u goblygiadau
11. polisi golygyddol yr orsaf radio, y darlledwr, comisiynydd arall neu gynhyrchydd y cynnwys a sut mae hyn yn berthnasol i'ch cynhyrchiad chi
12. y ddeddfwriaeth, rheoliadau, y safonau darlledu cyfredol a chodau ymarfer y diwydiant

Cynhyrchu cynnwys cerddoriaeth ar gyfer cynyrchiadau radio a sain

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSRAC22 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cydlynydd Cynhyrchu, Rheolwyr Stiwdio, Rheolwr Gorsaf, Cyflwynydd Radio, Cynhyrchydd Technegol, Cynorthwyydd Darlledu, Cynhyrchydd Cynorthwyol, Cynhyrchydd, Cynhyrchydd Gweithredol, Cynhyrchydd Drama, Cynhyrchydd Comedi, Cynhyrchydd Rhaglenni Dogfen, Cynhyrchydd Podlediadau, Cynhyrchydd Sain |
| **Cyfres/Set** | Creu Cynnwys Radio a Sain |
| **Geiriau Allweddol** | radio; sain; cerddoriaeth; cynnwys; cynhyrchiad; trwyddedau; cydsyniadau; caniatâd; |